

## YMARFERWR TÎM O AMGYLCH Y DENANTIAETH

TGP Cymru yw'r brif Elusen Hawliau Plant yng Nghymru, ac mae'n cynorthwyo ac yn cynrychioli plant, pobl ifanc a theuluoedd agored i niwed drwy amrywiaeth o brosiectau, hyfforddiant ac ymgyrchu. Ariennir gwasanaethau TGP Cymru gan gyllidwyr niferus ac mae'n darparu gwasanaethau ledled Cymru.



**Adran TGP Cymru:** Gwasanaethau Teuluol

**Yn atebol i:** Rheolwr y Tîm o Amgylch y Denantiaeth

**Lleoliad:** Gogledd Cymru

**Diben y swydd:**

Darparu cymorth i bobl ifanc a'u teuluoedd yn unol â'r gwasanaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n cynnwys eiriolaeth tai, cwnsela, mentora, cyfarfodydd adferol a datrys gwrthdaro.

**Atebolrwydd a Chyfrifoldebau:**

- Derbyn atgyfeiriadau yn unol â meini prawf a gytunwyd, ac esbonio i bobl sut y gallai'r gwasanaeth fod o gymorth iddynt hwy
- Paratoi / Annog / Cefnogi / Galluogi pobl ifanc, aelodau o'r teulu a gweithwyr proffesiynol i ymgysylltu a chyflawni eu canlyniadau dymunol
- Cyflwyno ymyraethau gan ddefnyddio ystod o fethodolegau yn cynnwys Dulliau Adferol, Datrys Gwrthdaro a Chyfarfodydd Grŵp Teuluol
- Cynorthwyo'r Rheolwr Tîm i asesu cyflawniad y Gwasanaeth o'i gymharu â'r fframwaith o ganlyniadau y cytunwyd arnynt drwy fonitro gweithgarwch a chasglu gwybodaeth briodol gan gynnwys adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth
- Datblygu elfennau o waith y Gwasanaeth fel y cyfeirir gan Reolwr y Tîm
- Cydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau TGP Cymru yn cynnwys cyllid, adrodd, rheoli data a diogelu
- Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ac arferion gwrth-wahaniaethol drwy'r gwaith a wneir yn y swydd
- Rhwydweithio gyda chydweithwyr a'r gymuned mewn modd priodol, gan gynnwys datblygu ymwybyddiaeth o wasanaethau TGP Cymru ymhlith gweithwyr proffesiynol perthnasol

Ymgymryd â dyletswyddau a chyfrifoldebau eraill a allai fod yn ofynnol yn rhesymol gan y Sefydliad ac sy'n gyson â gradd y swydd.

**Dangosyddion Perfformiad**

- Cyfrifol am ddarparu dangosyddion perfformiad allweddol a safonau arfer.
- Ansawdd y gwasanaeth a chydymffurfiad â safonau a gofynion statudol, rheoliadol, sefydliadol ac arfer gorau.
- Cyflawni amcanion a thargedau unigol a rhai'r gwasanaeth

**Cyfrifoldeb ychwanegol:**

Dim

**Cyfrifoldeb rheoli llinell:**

0

**Cyfrifoldeb rheoli cyllideb:**

£0

**Gradd:**

MS6

**Amodau gwaith:**

35 awr yr wythnos gydag agwedd hyblyg tuag at yr wythnos waith a fydd yn cynnwys gweithio ar benwythnosau a gyda'r nos ac aros dros nos oddi cartref ar adegau i fynd i gyfarfodydd, cynadleddau neu hyfforddiant.

Mae teithio i leoliadau amrywiol ledled Cymru a'r DU hefyd yn ofynnol.

**Cymwysterau**

- Cymhwyster proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol, gwaith gyda phobl ifanc a'r gymuned neu ddisgyblaeth gysylltiedig megis Iechyd ac Addysg (dymunol)

**Sgiliau a galluoedd**

Bydd deiliad y swydd yn gallu:

- cynhyrchu canlyniadau o ansawdd da mewn modd amserol ac sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth, ac ymroddiad i gyflawni'r canlyniadau a gytunwyd
- gweithio'n dda gyda chydweithwyr a phartneriaid a chydabod gwahanol syniadau, safbwyntiau a chefnidiroedd eraill
- cynllunio a threfnu gwaith a rheoli amser mewn modd effeithiol
- cyfathrebu yn effeithiol e.e. mynegi gwybodaeth a syniadau mewn modd clir, cryno a chywir; gwrandao'n astud a sicrhau y caiff gwybodaeth ei rhannu.
- bod yn agored i ddulliau a syniadau newydd, ymateb yn gadarnhaol i newid ac addasu'n gyflym i sefyllfaoedd newydd
- chwilio am gyfleoedd ar gyfer dysgu parhaus a thwf proffesiynol

**Gwybodaeth / Profiad**

Bydd deiliad y swydd yn gallu dangos dealltwriaeth gadarn a hanes o gyflawni yn y canlynol:

- Gweithio gyda phobl ifanc a theuluoedd mewn sefyllfaoedd cymhleth gan ddefnyddio dull sydd wedi'i seilio ar gryfderau
- Gweithio o fewn y sector digartrefedd (dymunol)
- Digartrefedd gan gynnwys deddfwriaeth a gwasanaethau cymorth
- Teuluoedd a pherthnasoedd
- Cyfarfodydd Grŵp Teuluol / Arfer Adferol / Datrys Gwrthdaro
- Gweithio aml-asiantaeth
- Diogelu

#### **Eraill**

- Arddangos gwerthoedd ac ymddygiadau TGP Cymru bob amser a'u hyrwyddo yn ymarferol i eraill
- Ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth
- Trwydded yrru lawn a cherbyd ar gael i'w ddefnyddio (*Mewn achosion penodol, rhoddir ystyriaeth i ymgeiswyr nad ydynt yn gallu gyrru o ganlyniad i anabledd.*)
- Y gallu i siarad Cymraeg (dymunol)